Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **18 Medi** |
| **Amser:** | **14:00 – 16:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Y Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Nicola Harris, SCHTh (NH)<br>Siân Davies, Swyddog Staff, HDP (SD)<br>Miss Mair Harries (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 11/09/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Diweddariad Ynghylch Cynnydd** |
| **PB 2332** | **Yr Heddlu i roi Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio 2018/19 i SCHTh.** | **Yn parhau** |
| **PB 2333** | **Nicola Harris o SCHTh i fynd i gyfarfodydd 6 misol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu gyda'r ASP.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2334** | **Yr Heddlu i roi dyddiadau cyfarfodydd rhwng y PG a Catrin Evans, Cyfarwyddwr Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu dros Gymru, i SCHTh.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2335** | **Cyfarfod nesaf Grŵp Plismona Cymru Gyfan i gynnwys adnewyddiadau i Ddeddf yr Heddlu a Throseddu 2017 ar ei agenda.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2336** | **Y Prif Uwch-arolygydd Vicky Evans i roi diweddariad ynglŷn â'r ddarpariaeth iechyd meddwl.** | **Yn parhau** |
| **PB 2337** | **JB i ymgysylltu â'r tîm fetio mewn perthynas â phenodi aelodau staff newydd yn yr adran gyllid.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2338** | **Cyflwyno adroddiad ariannol tymor canolig yng nghyfarfod mis Hydref y Bwrdd Plismona.** | **Yn parhau** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2339** | **Y CC i ddarparu amserlen glir o adrodd ariannol i gyfarfod mis Hydref y Bwrdd Plismona.** | **Yn parhau** |

**2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

Oherwydd yr amser byr ar gyfer cwblhau yn dilyn y cyfarfod Bwrdd Plismona (BP) diwethaf wythnos yn gynt, awgrymwyd y dylid gwneud pob diwygiad awgrymedig i'r cofnodion cyn y cyfarfod BP nesaf ar 16 Hydref.

PB 2332 – *Yr Heddlu i roi Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio 2018/19 i SCHTh.* Cydnabu'r Bwrdd fod y Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio ar gyfer 2018/19 ar ffurf drafft gyda'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol (PGC) ar hyn o bryd ar gyfer ei gymeradwyaeth.

**Cam Gweithredu: Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio 2018/19 a ddilyswyd i ymddangos ar agenda'r BP ar gyfer 16 Hydref.**

**Cam Gweithredu: Cyflwyno Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio 2019/20 yn y BP pan fydd ar gael.**

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

**Diweddariadau Gweithredol**

Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch amrediad o faterion gweithredol, gan gynnwys hunanladdiad mewn ysgol yn Sir Gaerfyrddin, llofruddiaeth dynes a arweiniodd at ddedfryd o 15 mlynedd ar gyfer ei llofrudd, a gwaith parhaus ar Ymgyrch Regent (llinellau cyffur) a arweiniodd at 16 arést, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

**Diweddariadau Sefydliadol**

Hysbysodd y PG y Bwrdd nad oedd unrhyw un o swyddogion nac aelodau staff HDP wedi'u gwahardd o'r gwaith ar hyn o bryd. Dywedodd y PG fod Diwrnod Agored yr Heddlu ddydd Sul 16 Medi wedi croesawu 1,400 o ymwelwyr i Bencadlys yr Heddlu, er waethaf y tywydd garw. Dywedodd y PG y byddai'n mynd i gyfarfod y Grŵp Prif Swyddogion ddydd Gwener 21 Medi ac y byddai'r ail gynhadledd iechyd meddwl genedlaethol yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd ar y 24$^{ain}$ a'r 25$^{ain}$ o Fedi. Nodwyd y byddai'r PGC yn mynd i gynhadledd argyfyngau sifil Cymru ym mis Hydref, ac y byddai'r DBG yn mynd i gyfarfod nesaf y cyngor prif swyddogion ddiwedd y mis.

Gwahoddwyd y CHTh i archwilio i system adolygiad o ddatblygiad personol newydd yr heddlu, sef y 'Proffil Datblygu Asesiad', cyn iddi gael ei lansio ym mis Hydref.

Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer ynglŷn â chynhyrchu cylchlythyr misol sy'n benodol ar gyfer pob sir rhwng tîm ymgysylltu SCHTh a'r Heddlu er mwyn tynnu

sylw'r cyhoedd at straeon newyddion da. Dywedodd y PG y byddai hyn ar agenda ei gyfarfod gyda chomanderiaid URS yr heddlu'r wythnos hon.

**Cam Gweithredu: Archwilio i gyfleoedd i ddatblygu cylchlythyr misol sy'n benodol ar gyfer pob sir gyda'r comanderiaid URS.**

## 4. Diweddariad CHTh

### Lleol

Diweddarodd CHTh y Bwrdd ynglŷn â'i gyfarfod â'r PGC Richard Lewis ynghylch sut i fwrw ymlaen â chyfarfodydd Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Roedd CHTh yn edrych ymlaen at fynd i gyfarfod gyda chynghorwyr Cyngor Sir Gaerfyrddin y noson honno, ac yna cyfarfod cyhoeddus gyda'r PG ac uwch swyddogion Sir Gaerfyrddin. Hefyd, rhoddodd y CHTh wybod i'r Bwrdd am ei fwriad i fod yn bresennol mewn cyfarfod Cyd-uned Arfau Saethu gyda Phrif Swyddogion a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill Cymru ar y 27ain o Fedi.

### Cenedlaethol

Hysbysodd y CHTh y Bwrdd am ei bresenoldeb ym Marchnad Dolgellau ddydd Gwener 14 Medi gydag Arfon Jones, CHTh Gogledd Cymru.

## 5. Pwnc y Mis: Cwynion (Nicola Harris)

Cyflwynodd NH drosolwg o'i rôl fel gweithiwr achos Ansawdd Gwasanaeth ers mis Ebrill 2018. Cyflwynodd NH ystadegau cwynion i'r Bwrdd o Ebrill 2018 hyd Medi 2018 yn unol â'r Protocol Gorchymyn Plismona (2011). Cyflwynwyd yr ystadegau mewn tair lefel ar wahân:

1) *Gweithredu Pryder Cymunedol* – pryderon a godwyd gan y cyhoedd, gan gynnwys pryderon personol, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anghydfodau rhwng cymdogion. Cyflwynodd NH gyfanswm nifer y cwynion ar gyfer pob chwarter a sawl achos sy'n mynd rhagddo, sawl un sydd wedi'i ddatrys, a gwybodaeth ynghylch sut y datryswyd yr achosion.

2) *Achosion sy'n cael eu goruchwylio* – Cyflwynodd NH drosolwg byr o'r 8 achos sy'n mynd rhagddynt.

3) *Cwynion yn erbyn y PG* – rhoddwyd gwybodaeth ynghylch sawl cwyn sydd wedi'i derbyn yn erbyn sawl cwyn sydd wedi'i chofnodi gan NH. Cofnodwyd 16 cwyn yn erbyn y PG yn ystod y cyfnod. Roedd pob un ohonynt yn ymwneud ag ymateb ac esgeuluso arall.

Cydnabu'r PG y byddai proses gofnodi newydd yn ei swyddfa'n sicrhau bod cwynion yn cael eu cydnabod mewn modd amserol.

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas ag achosion etifeddiaeth. Hysbysodd NH y Bwrdd fod 3 wedi'u cau'r wythnos hon.

Dywedodd y PS a NH fod y broses o gofnodi a mapio cwynion wedi'i thrafod gydag Adran Safonau Proffesiynol (ASP) yr Heddlu er mwyn sicrhau gwasanaeth

effeithiol ar gyfer y cyhoedd. Cydnabu'r Bwrdd fod adolygiad yn parhau mewn perthynas â dyfodol y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus a bod NH yn gyfforddus â datblygiadau parhaus o'r ASP.

Bydd trafodaeth yn cael ei chynnal gyda Swyddfa'r Ombwdsman cyn cyflawni newidiadau i ddeddfwriaethau cwynion fel y nodir yn Neddf yr Heddlu a Throseddu (2017) gyda golwg ar ddatblygu cyfathrebiadau mewn perthynas â'r broses gwyno i'r cyhoedd.

**a) Datganiad i'r wasg Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ynglŷn â'r modd y mae'r heddlu'n ymdrin â chwynion**

## 6. Eitemau Sefydlog

### a) AD

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch niferoedd swyddogion.

Cytunwyd fod angen i'r diweddariad AD misol roi mwy o gyd-destun ynglŷn â niferoedd swyddogion, gan gynnwys niferoedd aelodau staff yr heddlu, tueddiadau o ran y sefydliad, cynllunio ar gyfer olyniaeth a darogan.

**Cam Gweithredu: Y PS i gwrdd â'r adran AD er mwyn egluro gofynion adrodd.**

### b) Y Sefyllfa Ariannol a'r Cynllun Gadael Gwirfoddol

Darparwyd diweddariad mewn perthynas â nifer y ceisiadau ar gyfer y cynllun gadael gwirfoddol ynghyd â'r oblygiadau ariannol o ran y costau cyfandaliad a'r arbedion mewn blwyddyn a blwyddyn lawn. Nodwyd fod £390,000 eisoes wedi'i gynnwys yng nghyllideb eleni er mwyn bodloni cyfandaliadau. Cytunodd y PSA a'r CC i ymgysylltu ynghylch dewisiadau ar gyfer ariannu'r cyfandaliadau ychwanegol.

Cyflwynodd y CC adroddiad ariannol yn nodi fod HDP £422,000 dros y gyllideb o ddiwedd Awst 2018. Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd er mwyn deall y sefyllfa alldro, sy'n cynnwys craffu'n fanwl ar lefelau trafodion yr heddlu a chyllidebau staff heddlu ar gyfer pob unigolyn. Mae asesiadau'n cael eu cynnal er mwyn cyfrifo'r gorwariant tebygol yn erbyn grantiau plismona ac ymgyrchoedd amddiffyn a phorthladdoedd, yn ogystal ag asesiadau o'r mesurau ar gyfer lleihau gwario.

Roedd y CC yn disgwyl y byddai cyllideb yr heddlu'n cydbwyso erbyn diwedd y flwyddyn, er i'r PSA nodi rhybudd mewn perthynas â galwadau goramser a ffactorau y tu allan i reolaeth yr heddlu, megis ffioedd cyfreithiol a chodiadau cyflog staff a allai gael effaith.

Dywedodd y CC y bydd tanwariant o £98,000 o ran cyflogau swyddogion heddlu gyda gostyngiadau o ran recriwtiaid o 22 i 16, y gostyngiad o ran cyflogau staff a staff yn symud o'r Uned Ranbarthol Troseddu Trefnedig i TARIAN. Dywedodd y

CC fod goramser swyddogion wedi lleihau o ganlyniad i'r awdurdodiadau a rheoliadau ychwanegol sydd mewn grym. Trafodwyd pwysau o ran costau sydd ddim yn ymwneud â chyflogau, gan gynnwys cymorth o ran tywys ar gyfer Fferm Wynt Brechfa, sy'n cyfrannu at orwario £155,000. Nodwyd fod cynnydd mewn pris tanwydd, swyddi diogelwch penodol a phrosiect gweithrediadau seilwaith cenedlaethol critigol yn gorwario ac mae'n bosibl na fydd grantiau'n talu amdanynt.

Er bod tanwariant o ran costau cynnal ystadau, dywedodd y PSA fod hyn yn debygol o gael ei gydbwyso erbyn diwedd y flwyddyn gan nodi rhai meysydd lle arbedwyd arian ynghyd â phwysau lliniarol.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at gydweithio, gyda'r PSA yn dweud bod angen gwell tryloywder o ran adrodd ariannol, yn arbennig mewn perthynas â'r Cyd-uned Arfau Saethu. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r berthynas â Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, a ddaw i ben ar 1 Ebrill 2019. Dywedodd y PG fod sawl cwrs hyfforddi gyrwyr wedi'i drefnu ar y safle a adawyd gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Dywedodd y CHTh y dylai'r golled o £35,000 mewn incwm gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu gael ei hystyried yng nghyllideb yr heddlu.

**Cam Gweithredu: Y PSA a'r CC i drafod dewisiadau ar gyfer ariannu'r Cynllun Gadael Gwirfoddol y tu allan i'r Bwrdd Plismona.**

## 7. Materion i'w Trafod

### a) Ymateb drafft yr heddlu i Ddigidoli'r Heddlu – ymateb i argymhelliad Effeithiolrwydd AHGTAEM.

Cydnabu'r CHTh yr adroddiad ar Strategaeth TGCh yr Heddlu ar gyfer 2018 - 2024 a chwestiynodd sut yr oedd Strategaeth Rheoli Cofnodion yr Heddlu wedi'i ystyried wrth gynhyrchu'r adroddiad. Dywedodd y PG y byddai'r gwaith galw'n dod i ben erbyn diwedd Hydref yn dilyn trafodaeth flaenorol mewn perthynas â modelu gallu. Mae'r Heddlu wedi clustnodi £25,000 ar gyfer cwmni Chapel Associates, sef cwmni o ymgynghorwyr busnes strategol, i weithio gyda'r Heddlu am wythnos ar ei strategaeth modelu gallu. Cyflwynodd y PG gysylltiad cwmni Chapel Associates fel cam cadarnhaol ymlaen a fydd yn rhoi HDP mewn sefyllfa gref o ran gallu yn dilyn beirniadaeth gan Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) nad yw HDP wedi ymgysylltu'n rheolaidd â sefydliadau allanol yr y mater. Byddai'r gwaith gyda chwmni Chapel Associates yn caniatáu i HDP baratoi ei safbwynt ar y Model Gallu ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Cydnabu'r PG fod angen trafodaeth bellach rhyngddo ef a'r CC er mwyn sefydlu'r costau refeniw a chyfalaf llawn ar gyfer y prosiect Strategaeth Rheoli Cofnodion. Dywedodd y DBG fod gwaith parhaus wedi cyflwyno'r angen i HDP gael system gyfrifiadurol sy'n rhyddhau amser swyddogion ac yn lleihau dyblygu. Nodwyd fod y Prif Uwch-arolygydd Steve Cockwell wrthi'n cynhyrchu model busnes 5 achos

i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona er mwyn symud ymlaen â'r broses gaffael. Nodwyd y byddai'r prosiect yn hanfodol ar gyfer lleihau peryglon sylweddol mewn perthynas â'r modd y mae HDP yn rheoli cofnodion.

**b) Astudiaeth Gallu**

Nododd y Bwrdd fod Astudiaeth Gallu wedi'i drafod fel rhan o'r drafodaeth ar 7a – Ymateb yr Heddlu i Ddigidoli'r Gwasanaeth Heddlu.

**c) Adroddiadau Craffu**

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan Banel Sicrhau Ansawdd SCHTh mewn perthynas ag achosion cwyn yr Adran Safonau Proffesiynol (sy'n ymwneud ag anghydfodau rhwng cymdogion) a Chofnodion Stopio a Chwilio, ac adroddiad gan Banel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys SCHTh mewn perthynas ag ymarfer hap samplo o adolygiad o ddigwyddiadau byrgleriaeth rhwng mis Medi 2017 a mis Mai 2018. Mae'r adroddiadau wedi mynd trwy strwythur trefniant llywodraethu'r heddlu HDP yn y gorffennol, a chawsant eu cyflwyno i'r BP ar gyfer ystyriaeth y PG cyn eu cyhoeddi ar wefan SCHTh. Pwysleisiodd SD fod yr adroddiadau'n cadarnhau pwysigrwydd swyddogion HDP yn cofnodi digwyddiadau'n glir, defnyddio camerâu corff mewn da bryd yn ystod digwyddiadau, a labelu'r fideos yn gywir ar systemau TG HDP.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 18/09/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2340** | **Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio 2018/19 a ddilyswyd i ymddangos ar agenda'r BP ar gyfer 16 Hydref.** | **MH** |
| **PB 2341** | **Y PS i gwrdd â'r adran AD er mwyn egluro gofynion adrodd.** | **MH/CC** |
| **PB 2342** | **Archwilio i gyfleoedd i ddatblygu cylchlythyr misol sy'n benodol ar gyfer pob sir gyda'r comanderiaid URS.** | **PG** |
| **PB 2343** | **Y PS i gwrdd â'r adran AD er mwyn egluro gofynion adrodd.** | **PS** |
| **PB 2344** | **Y PSA a'r CC i drafod dewisiadau ar gyfer ariannu'r Cynllun Gadael Gwirfoddol y tu allan i'r Bwrdd Plismona.** | **MH** |
| **PB 2345** | **SCHTh i ymateb mewn perthynas â'i benderfyniad ynglŷn â'r cynllun ailhyfforddi gyrwyr NDORS.** | **MH** |